Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

029 2085 9696

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

Cylchlythyr | Circular

# Adolygiad CCAUC o gyllid addysgu: Canlyniadau ymgynghoriad cam un

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 3 Mai 2022 |
| **Cyfeirnod:** | W22/10HE |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru<br>Penaethiaid sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru |
| **Ymateb erbyn:** | Dim angen ymateb. |
| **Cyswllt** | Enw: Nicola Hunt<br>Ffôn: 029 2085 9735<br>E-bost: nicola.hunt@hefcw.ac.uk |

Mae'r cylchlythyr hwn yn cyflwyno canlyniadau cylchlythyr ymgynghori W21/26HE cham un o'n hadolygiad o gyllid addysgu. Roedd yr ymgynghoriad yn darparu gwybodaeth am newidiadau a gynigir i'n dulliau o gyllido addysgu ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 ac yn gofyn amryw o gwestiynau agored ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer cyllido o flwyddyn academaidd 2023/24 a thu hwnt.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn cyflwyno canlyniadau cylchlythyr ymgynghori W21/26HE cham un o'n hadolygiad o gyllid addysgu. Roedd yr ymgynghoriad yn darparu gwybodaeth am newidiadau a gynigir i'n dulliau o gyllido addysgu ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 ac yn gofyn amryw o gwestiynau agored ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer cyllido o flwyddyn academaidd 2023/24 a thu hwnt.

## Y Cefndir

2. Ym mis Awst 2021, cyhoeddwyd cylchlythyr ymgynghori W21/26HE gennym yn rhan o'r cam cyntaf o'n hadolygiad o gyllid addysgu. Yn y cylchlythyr hwnnw, buom yn ymgynghori ar nifer fach o newidiadau i'n dulliau o gyllido addysgu, a rhagwelwyd y byddai'r newidiadau hynny'n dod i rym ym mlwyddyn academaidd 2022/23. Roedd y newidiadau hyn yn gysylltiedig â phremiwm Mynediad a Chadw CCAUC, a'r cynllun hepgor ffioedd israddedig rhan-amser.

3. Roedd y cylchlythyr yn cynnwys gwybodaeth am waith datblygu a fyddai'n cael ei ddefnyddio'n sail ar gyfer ail gam ein hadolygiad o gyllid addysgu. Roedd y gwaith yn trafod premiwm CCAUC ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg (costau astudio ychwanegol), a'r perthynoleddau pwnc a ddefnyddir gennym yn ein modelau cyllido. Gofynnwyd amryw o gwestiynau ymgynghori agored hefyd er mwyn casglu barn a fyddai'n sail i ail gam ein hadolygiad cyllido.

## Canlyniadau'r ymgynghoriad

4. Cawsom 12 o ymatebion i'r ymgynghoriad, a ddaeth i ben ym mis Medi 2021. Rydym yn gwerthfawrogi amser ac ymdrech yr ymatebwyr wrth roi ymatebion ystyriol i'n cwestiynau.

5. Roedd cwestiynau 1-10 yr ymgynghoriad yn trafod newidiadau a gynigir i'n dulliau cyllido addysgu i'w gweithredu ym mlwyddyn academaidd 2022/23. Rhestrir canlyniadau'r cwestiynau hynny, a'r camau a gynigir, ym mharagraffau 7-32 isod. Ceir crynodeb o'r ymatebion yn **Atodiad A**.

6. Gofynnai cwestiynau 11-24 yr ymgynghoriad am farn ynghylch agweddau ehangach ar ein dulliau cyllido, gan gynnwys agweddau y dylid eu cadw neu eu diwygio, ac a oedd cydbwysedd y cyllid gan CCAUC ar gyfer darpariaeth amser llawn a rhan-amser yn briodol. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn adlewyrchu amrywiaeth o safbwyntiau am nifer o faterion yr ydym wedi'u hystyried wrth ddatblygu ein cynigion, y disgwyliwn eu cyhoeddi drwy gylchlythyr ymgynghori ddechrau mis Mai 2022. Cyflwynir y prif bwyntiau a godwyd ym mharagraffau 33-40 isod. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau hyn yn **Atodiad B**.

**Newidiadau arfaethedig ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23**

Y Premiwm Mynediad a Chadw

C1: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiweddaru'r fethodoleg ar gyfer y premiwm Mynediad a Chadw, sef defnyddio data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn lle data Cymunedau yn Gyntaf? Os nad ydych chi, pam ddim?

7. Roedd deg o'r un ymateb ar ddeg yn cefnogi ein cynnig i ddiweddaru'r fethodoleg ar gyfer y premiwm Mynediad a Chadw, sef defnyddio data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn lle data Cymunedau yn Gyntaf.

8. Awgrymodd un ymatebwr y dylai CCAUC gyfeirio at 'fyfyrwyr o ardal o amddifadedd' yn hytrach na bod y myfyrwyr eu hunain wedi'u disgrifio'n benodol fel myfyrwyr amddifadus/difreintiedig, ac y dylid gwneud yn yr un modd ar gyfer cyfranogiad isel, gan fod y ddau fesur yn seiliedig ar godau post. Awgrymodd ymatebwr arall nad oedd y dull a gynigir yn cynnwys amddifadedd mewn ardaloedd gwledig gystal ag yr oedd yn cynnwys amddifadedd mewn ardaloedd trefol. Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion a byddwn yn parhau i adolygu effeithiolrwydd y newidiadau a gynigiwyd gennym.

**Casgliad**: Byddwn yn diweddaru'r fethodoleg ar gyfer y Premiwm Mynediad a Chadw, i ddefnyddio data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn lle data Cymunedau yn Gyntaf. Lle bo'n briodol byddwn yn cyfeirio at ardaloedd o amddifadedd yn hytrach na dweud bod y myfyrwyr eu hunain yn amddifadus/ddifreintiedig.

C2: A oes unrhyw ddulliau eraill o ddiffinio amddifadedd y dylid eu hystyried yn eich barn chi ar wahân i ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)?

9. Ym mwyafrif yr ymatebion, ni nodwyd unrhyw ddulliau eraill o ddiffinio amddifadedd ar wahân i ddefnyddio MALIC. Gwnaeth dau ymatebwr awgrymiadau penodol, sef: cymhwysedd blaenorol i dderbyn prydau ysgol am ddim, a dull a oedd yn cynnwys cyfuniad o ffactorau er mwyn ehangu'r diffiniad o ehangu mynediad, a allai gynnwys data a gasglwyd eisoes drwy HESA.

10. Roedd mwyafrif yr ymatebion yn cefnogi ein cynnig i ddiweddaru'r fethodoleg a defnyddio data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn lle data Cymunedau yn Gyntaf. Nid yw peth o'r data sy'n ofynnol ar gael yn rhwydd ar gyfer y dulliau eraill a awgrymwyd, yn enwedig y data ar gymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim.

**Casgliad**: Byddwn yn defnyddio MALIC er mwyn diffinio amddifadedd yn y premiwm mynediad a chadw o flwyddyn academaidd 2022/23 ymlaen.

C3: Ydych chi'n cytuno y dylid defnyddio data'r cyfrifiad diweddaraf i fesur cyfranogiad isel? Os nad ydych chi, pam ddim? A beth ddylid ei ddefnyddio yn lle hynny i ddiffinio cyfranogiad isel?

11. Cafwyd cefnogaeth gref i CCAUC ddefnyddio data diweddaraf y cyfrifiad fel dull o fesur cyfranogiad isel yn y premiwm Mynediad a Chadw, gyda naw o'r un ymateb ar ddeg yn cytuno â hynny.

12. Awgrymodd un ymatebwr y gallai'r cynigion roi'r flaenoriaeth i rai mathau o amddifadedd ar draul eraill. Hynny yw, gallai myfyriwr o ardal cyfranogiad isel gael ei ystyried yn llai amddifadus na myfyriwr o gwintelau isaf MALIC.

13. Awgrymodd ambell ymatebwr y dylid defnyddio data cyfrifiad 2021 yn y dull premiwm, cyn gynted ag y bydd y data ar gael. Nododd un ymatebwr y bydd pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar gyfranogiad mewn addysg uwch, ac y byddai data cyfrifiad 2011 yn dyddio'n gyflym iawn.

14. Awgrymodd un ymatebwr y dylai CCAUC ystyried defnyddio data Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yr ONS, a fyddai'n fwy cyfredol na data cyfrifiad 2011. Rydym wedi ystyried yr awgrym hwn ond wedi casglu ei bod hi'n well cael y sefydlogrwydd o ddefnyddio data'r cyfrifiad o flwyddyn benodol yn hytrach na defnyddio set ddata sy'n cael ei diweddaru'n flynyddol.

**Casgliad**: Byddwn yn defnyddio data cyfrifiad 2011 i ddechrau i fesur cyfranogiad isel yn y premiwm Mynediad a Chadw. Pan fyddant ar gael, byddwn yn defnyddio data cyfrifiad 2021 yn y premiwm hwn neu mewn premiymau yn y dyfodol sy'n defnyddio data'r cyfrifiad.

<u>C4: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i godi'r trothwy amddifadedd a ddefnyddir gennym i bennu'r bandiau ar gyfer lefelau cyllid? Os nad ydych chi, pam ddim?</u>

15. Cytunai mwyafrif yr ymatebwyr â'r cynnig i gynyddu'r trothwy amddifadedd a ddefnyddir gan CCAUC i bennu'r bandiau ar gyfer y lefelau cyllid.

16. Teimlai un ymatebwr nad oed dy bandiau a ddefnyddiwyd yn y dull premiwm yn fuddiol oherwydd 1) ei bod hi'n bosibl y byddai llai o angen am gyllid ychwanegol mewn prifysgolion a oedd yn recriwtio niferoedd mawr o ddysgwyr o ardaloedd o amddifadedd a 2) nid oedd mesurau seiliedig ar god post bob amser yn rhoi cyfrif am ardaloedd gwledig lle mae dwysedd y boblogaeth yn isel ond lle gallai'r lefelau amddifadedd fod yn uchel.

17. Nododd un ymatebwr ei bod hi'n anodd sicrhau canran benodol o fyfyrwyr cymwys (o ardal o amddifadedd) mewn sefydliad, oherwydd cymhlethdod ymddygiadau derbyn, a'r gwahaniaethau rhwng cyd-destunau darparwyr addysg uwch.

18. Awgrymodd un ymatebwr y byddai cael un gyfradd heb fandiau'n fodd i gyfleu wrth ddarparwyr addysg uwch mai'r mwyaf o fyfyrwyr cymwys y byddant yn eu recriwtio, y mwyaf o bremiwm Mynediad a Chadw y byddant yn ei dderbyn. Byddai hyn hefyd o gymorth i wella cydraddoldeb rhwng lefelau cyllid a ddyrannir i'r boblogaeth o fyfyrwyr cymwys.

**Casgliad**: Byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynnig i godi'r trothwy amddifadedd a ddefnyddir i bennu'r bandiau cyllid yn y premiwm Mynediad a chadw. Rydym wedi

cynnwys cynnig yng ngham dau'r ymgynghoriad i addasu'r pwysoliadau ar gyfer agwedd gadw'r premiwm o 2023/24 ymlaen.

C5: A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai godi yn sgil ein cynigion i ddiweddaru'r Premiwm Mynediad a Chadw fel newid dros dro?

19. Ni nododd mwyafrif yr ymatebwyr unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai ddeillio o’n cynigion i ddiweddaru’r premiwm Mynediad a Chadw yn 2022/23.

20. Holodd un ymatebwr ynghylch yr amserlenni ar gyfer gweithredu ein cynigion, gan awgrymu pe bai’r newid interim yn achosi newid sylweddol i ddosbarthiad y cyllid, y byddai'n well ystyried hynny'n rhan o’r adolygiad ehangach o gyllid addysgu.

21. Pe bai’r newid dros dro yn para blwyddyn yn unig, awgrymodd un ymatebwr y gallai greu goblygiadau o ran y gallu i gymharu data mewn blynyddoedd i ddod, a golygu mwy o fewnbwn gweinyddol, a gwaith monitro a gwerthuso.

**Casgliad**: Byddwn yn bwrw ymlaen i weithredu ein cynigion fel y cynlluniwyd, gan ystyried cynlluniau i sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Byddwn yn ystyried effaith y newidiadau i'r premiwm mynediad a chadw y tu hwnt i flwyddyn academaidd 2022/23 yn rhan o'n hadolygiad ehangach o ddulliau cyllido.

Hepgor ffioedd israddedig rhan-amser

C6: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynllun hepgor ffioedd rhan-amser, fel yr amlinellwyd? Os nad ydych chi, eglurwch yn eich ymateb.

22. Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynnig i ddiwygio’r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynllun hepgor ffioedd rhan-amser, gyda deg o'r un ymatebwr ar ddeg yn cytuno â hynny.

23. Awgrymodd ymatebwyr y byddai ehangu cymhwysedd y cynllun i gynnwys grwpiau wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch yn golygu bod y cynllun yn fwy cynhwysol ac yn cynyddu apêl astudio rhan-amser.

24. Nododd un ymatebwr y gallai'r system bresennol ar gyfer cyllid myfyrwyr, fel y'i gweinyddir gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, fod yn rhwystr i fyfyrwyr sy’n dymuno dilyn nifer fach o gredydau, ac anogodd CCAUC i gysoni unrhyw newidiadau i'w gyllid â mecanweithiau cymorth sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys rhoi ystyriaeth i ddarpariaeth microgymwysterau.

**Casgliad:** Byddwn yn diwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynllun hepgor ffioedd rhan-amser israddedig i gynnwys mwy o fyfyrwyr o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch. Mae'r cynllun presennol eisoes yn caniatáu hawlio ffioedd wedi'u hepgor yn erbyn darpariaeth microgymwysterau, fel yr amlinellir yng nghylchlythyr W21/36HE.

C7: A oes grwpiau eraill o fyfyrwyr y dylid eu cynnwys fel rhai a allai gael budd o'r cynllun, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynigion uchod? Os felly, eglurwch.

25. Awgrymodd saith ymatebwr grwpiau eraill o fyfyrwyr y dylid eu cynnwys fel rhai a allai elwa ar y cynllun. Dyma nhw:
    - Myfyrwyr â phrofiad o ofal neu fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd
    - cyn-droseddwyr
    - ceiswyr lloches
    - ffoaduriaid
    - myfyrwyr ag anabledd
    - myfyrwyr o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrifol ethnig
    - rhai sy'n gadael gofal
    - gofalwyr
    - cynnwys grwpiau eraill wedi'u tangynrychioli, fel y rhestrwyd yng nghanllawiau cynllun mynediad a ffioedd CCUAC, waeth beth fo cod post y myfyriwr

26. Awgrymodd un ymatebwr y dylid ehangu'r cynllun i gynnwys darpariaeth ôl-radd a addysgir a darpariaeth microgymwysterau, yn ogystal â darpariaeth nad yw'n arwain at gymhwyster AU ffurfiol.

**Casgliad:** Ein bwriad cyffredinol yw y bydd sefydliadau'n gweinyddu hepgoriadau ffioedd yn ôl eu doethineb, fel eu bod yn cael eu dyrannu i'r myfyrwyr hynny sydd wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch neu yr ystyrir eu bod yn fwyaf tebygol o elwa ar y cynllun hepgor ffioedd am reswm arall. Mae'r cynllun presennol eisoes yn caniatáu hawlio ffioedd wedi'u hepgor yn erbyn darpariaeth microgymwysterau, fel yr amlinellir yng nghylchlythyr W21/36HE. Byddwn yn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer cynllun 2022/23 mewn cylchlythyr ar wahân, y disgwyliwn ei gyhoeddi cyn diwedd mis Mai 2022.

C8: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r modd yr ydym yn dyrannu cyllid ar gyfer hepgor ffioedd i sefydliadau? Os nad ydych chi, eglurwch yn eich ymateb.

27. Cafwyd cefnogaeth gref i'r cynnig i ddiwygio'r ffordd mae CCAUC yn dyrannu cyllid i sefydliadau i hepgor ffioedd rhan-amser. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r syniad o ddyraniad sefydlog ar ddechrau'r flwyddyn, ac addasiadau ar gyfer unrhyw achos o recriwtio mwy neu lai o fyfyrwyr ar ddiwedd y flwyddyn. Byddai hyn yn gwella'r broses o weinyddu'r cynllun, a'r gobaith yw y byddai'n fodd i gynyddu cyfranogiad.

28. Anogodd un ymatebwr CCAUC i sicrhau bod meini prawf cymhwysedd y cynllun yn glir, ac nad yw'r drefn ar gyfer cymhwyso'r meini prawf hynny'n creu baich diangen i'r darparydd.

**Casgliad:** Byddwn yn gweithredu ein cynigion i ddiwygio'r ffordd rydym yn dyrannu cyllid ar gyfer hepgor ffioedd i sefydliadau fel bod sefydliadau'n derbyn dyraniad sefydlog cyn dechrau'r flwyddyn academaidd, gan wneud addasiadau i adlewyrchu'r defnydd gwirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd hyn o gymorth i

leihau unrhyw faich gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r cynllun, ac yn rhoi cymaint o gyfle ag sy'n bosibl i sefydliadau godi ymwybyddiaeth ynghylch y cynllun ymhlith darpar fyfyrwyr.

C9: A oes ffyrdd eraill y gellid eu defnyddio i gefnogi myfyrwyr rhan-amser sy'n astudio llai na 25% CALl?

29. Dyma rai o'r awgrymiadau eraill ynghylch sut y gellid cefnogi myfyrwyr rhan-amser sy'n astudio llai na 25% CALl:
    - cymorth ariannol i fyfyrwyr gael mynediad at dechnoleg (gan gynnwys ar gyfer dysgu ar-lein)
    - cyllid i gefnogi dysgu cyfrwng Cymraeg
    - cymhorthdal ar gyfer costau gofal plant
    - grantiau eraill
    - cymorth ar gyfer cyrsiau heb eu hachredu sy'n arwain at achrediad
    - cymorth ar gyfer costau trafnidiaeth

30. Awgrymodd un ymatebwr mai un ffordd o gefnogi myfyrwyr sy'n astudio llai na 25% CALl fyddai caniatáu i'r sefydliad hawlio cyllid ar gyfer myfyrwyr a ddewisodd astudio ar ddwysedd o lai na 25% i ddechrau ond a gafodd ysgogiad priodol wedyn i astudio ar ddwysedd uwch yn yr un flwyddyn.

    **Casgliad:** Byddwn yn ystyried yr awgrymiadau uchod os ceir unrhyw gyfle yn y dyfodol i gyllido datblygiad strategol. Byddwn hefyd yn annog sefydliadau i barhau i ystyried sut y gellir cefnogi'r awgrymiadau uchod drwy fuddsoddiad y cynllun mynediad a ffioedd. Nid ydym ar hyn o bryd yn bwriadu diwygio'r cynllun hepgor ffioedd er mwyn darparu cyllid i gefnogi hepgoriadau ffi i fyfyrwyr sy'n astudio llai na 25% CALl ond sydd yn y diwedd yn astudio ymhellach yn yr un flwyddyn. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried a oes angen gwneud hyn ar ôl gallu pennu effeithiolrwydd y newidiadau cychwynnol.

C10: A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai godi yn sgil ein cynigion i ddiweddaru'r cynllun hepgor ffioedd rhan-amser?

31. Ni wnaeth mwyafrif yr ymatebwyr nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai godi yn sgil y cynigion i ddiweddaru'r cynllun hepgor ffioedd rhan-amser.

32. Awgrymodd un ymatebwr fod peryg i ffocws ar ganlyniadau cyflogadwyedd a sgiliau dynnu sylw oddi ar y budd cyffredinol a gaiff myfyrwyr o ddilyn astudiaethau addysg uwch.

    **Casgliad:** Byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynigion fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad ac yn parhau i asesu effaith y cynllun newydd wrth iddo gael ei roi ar waith.

## Ymatebion i gwestiynau agored

33. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau agored hyn yn **Atodiad B**. Rhoddir sylw isod i'r prif faterion a godwyd yn yr ymatebion.

Effaith ariannol

34. Roedd consensws cyffredinol yn yr ymatebion fod ein cyllid yn cynnig sefydlogrwydd ariannol i sefydliadau a oedd yn eu galluogi i gyflawni'n unol â'u cenhadaeth a'u blaenoriaethau strategol.

35. Roedd yr ymatebion hefyd yn cadarnhau bod cyllid addysgu CCAUC yn dylanwadu ar ymddygiad sefydliadau, er bod sefydliadau'n adrodd bod lefelau'r adnoddau a oedd ar gael yn gyffredinol ar draws y gwahanol fathau o ddarpariaeth yn cyfyngu i ryw raddau ar effaith y cyllid. Cafwyd barn glir yn yr ymatebion gan sefydliadau nad yw lefelau cyllido presennol CCAUC yn galluogi sefydliadau i dalu'r gost wirioneddol o gyflenwi gwahanol fathau o ddarpariaeth, ac nad oedd cydbwysedd y cyllid rhwng gwahanol fathau o ddarpariaeth yn briodol.

36. Pwrpas cyllid cylchol CCAUC yw rhoi cyfraniad ariannol i sefydliadau a fydd yn eu galluogi i gyflenwi eu gweithgarwch addysgu creiddiol. Darperir y cyllid, yn ychwanegol at yr incwm ffioedd y mae sefydliadau'n ei dderbyn gan fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU, i gefnogi darpariaeth addysgu ar gyfer y myfyrwyr hynny. Rydym hefyd yn cydnabod bod ffactorau allanol nad oes gennym rhyw lawer o reolaeth drostynt, os o gwbl, fel trefniadau cymorth myfyrwyr rhan-amser. Byddwn yn parhau i fyfyrio ar hyn yn ein penderfyniadau wrth inni gydbwyso gwahanol anghenion o fewn y gyllideb.

37. Darperir cyllid CCAUC ar sail fformiwla. Fodd bynnag, nid ydym yn rhagnodi sut y dylai sefydliadau ddefnyddio'r cyllid, na'r penderfyniadau strategol y byddant yn eu gwneud ynghylch sut i ddefnyddio'r cyllid, nac ychwaith i ba raddau y byddant yn cyllido disgyblaethau neu feysydd astudiaeth penodol.

Darpariaeth israddedig ran-amser

38. Roedd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn amlygu'r heriau wrth sicrhau digon o adnoddau ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser, a'r ffaith bod hyn yn amharu ar allu sefydliadau i gyflawni eu blaenoriaethau strategol mewn perthynas â darpariaeth ran-amser. Mae CCAUC ar hyn o bryd yn darparu cyllid ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser drwy'r dull cyllido seiliedig ar gredydau, premiymau a chyllid fesul pen, a chynigir y dylid cadw hyn yn y dull cyllido newydd. Fodd bynnag, mae trefniadau cymorth ariannol i fyfyrwyr israddedig rhan-amser - gan gynnwys yr uchafswm ffioedd dysgu a'r cyllid cymorth myfyrwyr sydd ar gael - y tu hwnt i gylch gwaith CCAUC.

Darpariaeth ôl-radd a addysgir

39. Roedd rhai o’r ymatebion i’r ymgynghoriad yn gofyn inni ystyried darparu cyllid seiliedig ar gredydau ar gyfer darpariaeth ôl-radd a addysgir. Rydym yn bwriadu ehangu’r model seiliedig ar gredydau i’n galluogi, mewn egwyddor, i gyllido darpariaeth ôl-radd a addysgir yn y dyfodol; fodd bynnag, ni fyddem mewn sefyllfa

i wneud hyn heb fod angen casglu data ychwanegol gan sefydliadau a gyllidir, ar y dechrau o leiaf. Byddai cyllido'r ddarpariaeth hon hefyd yn amodol ar gyfyngiadau cyllidebol, ac mae'n annhebygol o fod yn ddichonadwy yn y dyfodol agos ar sail lefel y cyllid sydd ar gael i CCAUC ar hyn o bryd. Bydd rhagor o wybodaeth am y cynigion i ddiwygio'r model sy'n seiliedig ar gredydau ar gael yn ein cylchlythyr ymgynghori arfaethedig.

Cyfrwng Cymraeg

40. Gofynnwyd hefyd am farn ynghylch sut y dylem gyllido darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno ar y cyfan fod hyn yn parhau i fod yn faes i'w flaenoriaethu drwy ein cyllid, ac y dylai CCAUC barhau i ddarparu premiwm ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg ran-amser. Awgrymodd un ymatebwr y dylem ystyried hepgor ffioedd myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw hepgor ffioedd ar gyfer darpariaeth amser llawn o fewn cylch gwaith CCAUC, ac atgoffir sefydliadau ynghylch eu cyfrifoldebau'n gysylltiedig â buddsoddiad eu cynllun mynediad a ffioedd, a allai gynnwys rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym wedi comisiynu London Economics i gynnal adolygiad o gostau ychwanegol darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac nid ydym yn bwriadu cyflwyno unrhyw newidiadau i'n dulliau cyllido yn gysylltiedig â darpariaeth cyfrwng Cymraeg nes bo canlyniadau'r adolygiad hwnnw'n hysbys.

## Y camau nesaf

41. Byddwn yn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer cynllun hepgor ffioedd israddedig rhan-amser ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 yng nghylchlythyr y cynllun. Rhagwelwn y byddwn yn cyhoeddi'r cylchlythyr hwnnw cyn diwedd mis Mai 2022. Bydd y cylchlythyr yn cynnwys dyraniadau cyllid unigol i gefnogi hepgoriadau ffi mewn sefydliadau a gyllidir gan CCAUC, i'w dyrannu ym mlwyddyn academaidd 2022/23.

## Rhagor o wybodaeth

42. Am ragor o wybodaeth ynghylch yr adolygiad o gyllid addysgu neu'r cynllun hepgor ffioedd israddedig rhan-amser cysylltwch â Nicola Hunt (029 2085 9735; nicola.hunt@hefcw.ac.uk).

43. Am ragor o wybodaeth am ein gwaith yn gysylltiedig ag ehangu mynediad a chynhwysiant, cysylltwch â equality@hefcw.ac.uk.

## Asesu effaith ein polisïau

44. Rydym wedi asesu effaith y newidiadau arfaethedig a amlinellwyd yn y cylchlythyr hwn.

45. Yn ôl yr ymatebion i gam cyntaf ein hymgynghoriad byddai'r cynigion i ddiwygio'r cynllun hepgor ffioedd rhan-amser yn galluogi mwy o fyfyrwyr i elwa ar y cynllun.

Gallai'r adolygiad o fapiau daearyddol a ddefnyddir i nodi myfyrwyr o ardaloedd difreintiedig ac ardaloedd â chyfranogiad AU isel arwain at lefelau uwch o gyllid Mynediad a Chadw ar draws y sector, a allai gael effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr a dangynrychiolir mewn AU.

46. Byddwn yn parhau i adolygu ein hasesiad effaith er mwyn helpu i amddiffyn rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.

**Atodiad A**

**Crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Cam Un ar gyllid addysgu (newidiadau arfaethedig ar gyfer 2022/23)**

Nifer yr ymatebwyr: 12 (un ymateb cyffredinol ac 11 ymateb manwl)

**Cyffredinol:**

- Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r cyfle i gynnig sylwadau ar y cynigion.
- Teimlai un ymatebwr fod diffyg capasiti wedi cyfyngu ar ei allu i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Pwyntiau allweddol:

- Roedd yr ymatebwyr o blaid y cynigion a oedd wedi'u cynnwys yn ymgynghoriad Cam Un ar y cyfan.
- Pwysleisiai'r ymatebwyr pa mor bwysig oedd cyllido darpariaeth ar lefel a fyddai'n galluogi iddi fod yn gynaliadwy, gan roi ystyriaeth i incwm ffioedd a chyllid CCAUC.

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiweddaru'r fethodoleg ar gyfer y premiwm Mynediad a Chadw, sef defnyddio data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn lle data Cymunedau yn Gyntaf? Os nad ydych chi, pam ddim? (12 o ymatebwyr)**

Ydw: 10
Ydw, gydag amodau: 1
Nac ydw:
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 1

Pwyntiau a godwyd:

- Cafwyd cefnogaeth gref ar gyfer y cynnig i ddiweddaru'r fethodoleg ar gyfer y premiwm Mynediad a Chadw, fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad.
- Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod bod mapiau data Cymunedau yn Gyntaf wedi dyddio bellach.
- Awgrymodd un ymatebwr y dylai CCAUC gyfeirio at 'fyfyrwyr o ardal o amddifadedd' yn hytrach na bod y myfyrwyr eu hunain wedi'u disgrifio'n benodol fel myfyrwyr amddifadus/difreintiedig, ac y dylid gwneud yn yr un modd ar gyfer cyfranogiad isel, gan fod y ddau fesur yn seiliedig ar godau post.
- Awgrymodd un ymatebwr nad oedd y dull a gynigir yn cynnwys amddifadedd mewn ardaloedd gwledig gystal ag yr oedd yn cynnwys amddifadedd mewn ardaloedd trefol.
- Awgrymodd un ymatebwr fod MALlC yn fesuriad mwy cynhwysol, sy'n gyson â Mesurau Cenedlaethol CCAUC a phrosesau'r cynlluniau mynediad a ffioedd.

**Cwestiwn 2: A oes unrhyw ddulliau eraill o ddiffinio amddifadedd y dylid eu hystyried yn eich barn chi yn lle defnyddio MALIC? (12 o ymatebwyr)**

Oes: 3
Oes, gydag amodau:
Nac oes: 7
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 2

Pwyntiau a godwyd:

- Awgrymwyd dau ddull arall penodol o ddiffinio amddifadedd. Roedd y rhain yn cynnwys:
    - Cymhwysedd blaenorol i dderbyn prydau ysgol am ddim
    - Dull a oedd yn cynnwys cyfuniad o ffactorau er mwyn creu diffiniad ehangach o ehangu mynediad, a allai gynnwys data sydd eisoes wedi'u casglu (neu y cynigir eu casglu) drwy Ddyfodol Data HESA, fel dechreuwyr o raglenni mynediad, rhai sydd wedi gadael gofal, myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio, y genhedlaeth gyntaf i ddechrau AU (ee, addysg y rhieni), dosbarthiad economaidd-gymdeithasol, dosbarthiad galwedigaethol safonol.
- Ni allai mwyafrif yr ymatebwyr nodi dulliau eraill o ddiffinio amddifadedd yng Nghymru, a byddai defnyddio data MALIC yn gyson â Mesurau Cenedlaethol CCAUC a data Llywodraeth Cymru ar amddifadedd cymharol.

**Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno y dylid defnyddio data'r cyfrifiad diweddaraf i fesur cyfranogiad isel? Os nad ydych chi, pam ddim? A beth ddylid ei ddefnyddio yn lle hynny i ddiffinio cyfranogiad isel? (12 o ymatebwyr)**

Ydw: 9
Ydw, gydag amodau:
Nac ydw: 2
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 1

Pwyntiau a godwyd:

- Cafwyd cefnogaeth gref i CCAUC ddefnyddio data diweddaraf y cyfrifiad fel dull o fesur cyfranogiad isel yn y premiwm Mynediad a Chadw.
- Awgrymodd un ymatebwr y gallai'r cynigion roi'r flaenoriaeth i rai mathau o amddifadedd ar draul eraill.
- Awgrymodd ambell ymatebwr y dylid defnyddio data cyfrifiad 2021 yn y dull premiwm, cyn gynted ag y bydd y data ar gael.
- Awgrymodd un ymatebwr y dylai CCAUC ystyried defnyddio data Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth yr ONS, a fyddai'n fwy cyfredol na data cyfrifiad 2011.
- Nododd un ymatebwr y bydd pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar gyfranogiad mewn addysg uwch, ac y byddai data cyfrifiad 2011 yn dyddio'n gyflym iawn.

**Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig ym mharagraff 17 i godi'r trothwy amddifadedd a ddefnyddir gennym i bennu'r bandiau ar gyfer lefelau cyllid? Os nad ydych chi, pam ddim? (12 o ymatebwyr)**

Ydw: 9
Ydw, gydag amodau:
Nac ydw: 1
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 2

Pwyntiau a godwyd:

- Cytunai mwyafrif yr ymatebwyr â'r cynnig i gynyddu'r trothwy amddifadedd a ddefnyddir gan CCAUC i bennu'r bandiau ar gyfer y lefelau cyllid.
- Teimlai un ymatebwr nad oed dy bandiau a ddefnyddiwyd yn y dull premiwm yn fuddiol oherwydd 1) ei bod hi'n bosibl y byddai llai o angen am gyllid ychwanegol y tu hwnt i'r swm sylfaenol mewn prifysgolion a oedd yn recriwtio niferoedd mawr o ddysgwyr o ardaloedd o amddifadedd a 2) nid oedd mesurau seiliedig ar god post bob amser yn rhoi cyfrif am ardaloedd gwledig lle mae dwysedd y boblogaeth yn isel ond lle gallai'r lefelau amddifadedd fod yn uchel.
- Nododd un ymatebwr ei bod hi'n anodd sicrhau canran benodol o fyfyrwyr cymwys (o ardal o amddifadedd) mewn sefydliad, oherwydd cymhlethdod y broses dderbyn a'r gwahaniaethau rhwng cyd-destunau darparwyr addysg uwch.
- Awgrymodd un ymatebwr y byddai cael un gyfradd heb fandiau'n fodd i gyfleu wrth ddarparwyr addysg uwch mai'r mwyaf o fyfyrwyr cymwys y byddant yn eu recriwtio, y mwyaf o bremiwm Mynediad a Chadw y byddant yn ei dderbyn. Byddai hyn hefyd o gymorth i wella cydraddoldeb rhwng lefelau cyllid a ddyrannir i'r boblogaeth o fyfyrwyr cymwys.

**Cwestiwn 5: A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai godi yn sgil ein cynigion i ddiweddaru'r Premiwm Mynediad a Chadw fel newid dros dro? (12 o ymatebwyr)**

Oes: 1
Oes, gydag amodau:
Nac oes: 8
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 3

Pwyntiau a godwyd:

- Ni nododd mwyafrif yr ymatebwyr unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai ddeillio o’n cynigion i ddiweddaru’r premiwm Mynediad a Chadw yn 2022/23.
- Holodd un ymatebwr ynghylch yr amserlenni ar gyfer gweithredu ein cynigion, gan awgrymu pe bai’r newid interim yn achosi newid sylweddol i ddosbarthiad y cyllid, y byddai'n well ystyried hynny'n rhan o’r adolygiad ehangach o gyllid addysgu.
- Pe bai’r newid dros dro yn para blwyddyn yn unig, awgrymodd un ymatebwr y gallai greu goblygiadau o ran y gallu i gymharu data mewn blynyddoedd i ddod, a golygu mwy o fewnbwn gweinyddol, a gwaith monitro a gwerthuso.

**Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynllun hepgor ffioedd rhan-amser, fel yr amlinellwyd? Os nad ydych chi, eglurwch yn eich ymateb. (12 o ymatebwyr)**

Ydw: 10

Ydw, gydag amodau:
Nac ydw:
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 2

Pwyntiau a godwyd:

- Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig i ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynllun hepgor ffioedd rhan-amser.
- Awgrymodd ymatebwyr y byddai ehangu cymhwysedd y cynllun i gynnwys grwpiau wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch yn golygu bod y cynllun yn fwy cynhwysol ac yn cynyddu apêl astudio rhan-amser.
- Roedd un ymatebwr o blaid y cynnig ond yn cwestiynu a fyddai'n achosi unrhyw gynnydd o bwys yn y nifer sy'n manteisio ar y cynllun.
- Nododd un ymatebwr y gallai'r system bresennol ar gyfer cyllid myfyrwyr fod yn rhwystr i fyfyrwyr sy'n dymuno dilyn nifer fach o gredydau, ac anogodd CCAUC i gysoni unrhyw newidiadau â mecanweithiau cymorth sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys rhoi ystyriaeth i ddarpariaeth microgymwysterau.

**Cwestiwn 7: A oes grwpiau eraill o fyfyrwyr y dylid eu cynnwys fel rhai a allai gael budd o'r cynllun, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynigion uchod? Os felly, eglurwch. (12 o ymatebwyr)**

Oes: 7
Oes, gydag amodau:
Nac oes: 3
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 2

Pwyntiau a godwyd:

- Awgrymwyd llawer o grwpiau eraill o fyfyrwyr y dylid eu cynnwys fel rhai a allai elwa ar y cynllun hepgor ffioedd rhan-amser. Dyma nhw:
    - Myfyrwyr wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd neu â phrofiad o'r system ofal
    - cyn-droseddwyr
    - ceiswyr lloches
    - ffoaduriaid
    - myfyrwyr ag anabledd
    - myfyrwyr o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrifol ethnig
    - rhai sy'n gadael gofal
    - gofalwyr
    - cynnwys grwpiau eraill wedi'u tangynrychioli, fel y rhestrwyd yng nghanllawiau cynllun mynediad a ffioedd CCUAC, waeth beth fo cod post y myfyriwr

- Awgrymodd un ymatebwr y dylid ehangu'r cynllun i gynnwys darpariaeth ôl-radd a addysgir a darpariaeth microgymwysterau, yn ogystal â darpariaeth nad yw'n arwain at gymhwyster AU ffurfiol.
- Holodd un ymatebwr a ellid ehangu'r cynllun hepgor ffioedd rhan-amser i gynnwys buddiolwyr â statws cyflogedig. Gellid gweinyddu hyn drwy ddefnyddio prawf modd neu gap cyflog.

**Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r modd yr ydym yn dyrannu cyllid ar gyfer hepgor ffioedd i sefydliadau? Os nad ydych chi, eglurwch yn eich ymateb. (12 o ymatebwyr)**

Ydw: 10
Ydw, gydag amodau:
Nac ydw:
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 2

Pwyntiau a godwyd:

- Cafwyd cefnogaeth gref i’r cynnig i ddiwygio’r ffordd mae CCAUC yn dyrannu cyllid i sefydliadau i hepgor ffioedd rhan-amser. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r syniad o gael dyraniad sefydlog, a fyddai'n gwella'r broses o weinyddu'r cynllun ac yn cynyddu cyfranogiad.
- Anogodd un ymatebwr CCAUC i sicrhau bod meini prawf cymhwysedd y cynllun yn glir, ac nad yw'r drefn ar gyfer cymhwyso'r meini prawf hynny'n creu baich diangen i'r darparydd.

**Cwestiwn 9: A oes ffyrdd eraill y gellid eu defnyddio i gefnogi myfyrwyr rhan-amser sy'n astudio llai na 25% CALl? (12 o ymatebwyr)**

Oes: 8
Oes, gydag amodau:
Nac oes: 3
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 1

Pwyntiau a godwyd:

- Gwnaed nifer o awgrymiadau, gan gynnwys:
    - Cymorth ariannol i fyfyrwyr gael mynediad at dechnoleg (gan gynnwys ar gyfer dysgu ar-lein)
    - Cyllid i gefnogi dysgu cyfrwng Cymraeg
    - Cymhorthdal ar gyfer costau gofal plant
    - Grantiau eraill
    - Cefnogaeth ar gyfer cyrsiau heb eu hachredu sy'n arwain at achrediad
    - Cefnogaeth ar gyfer costau trafnidiaeth

- Awgrymodd un ymatebwr mai un ffordd o gefnogi myfyrwyr sy’n astudio llai na 25% CALl fyddai caniatáu i’r sefydliad hawlio cyllid ar gyfer myfyrwyr a ddewisodd astudio ar ddwysedd o lai na 25% i ddechrau ond a gafodd ysgogiad priodol wedyn i astudio ar ddwysedd uwch yn yr un flwyddyn. Byddai hyn o gymorth i annog myfyrwyr rhag ysgwyddo mwy o faich dysgu nag a fyddai o fudd iddynt yn nhermau llesiant a chyfleoedd economaidd.

**Cwestiwn 10: A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai godi yn sgil ein cynigion i ddiweddaru'r cynllun hepgor ffioedd rhan-amser? (12 o ymatebwyr)**

Oes: 1
Oes, gydag amodau:
Nac oes: 9
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 2

Pwyntiau a godwyd:

- Ni wnaeth mwyafrif yr ymatebwyr nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai godi yn sgil y cynigion i ddiweddaru'r cynllun hepgor ffioedd rhan-amser.
- Awgrymodd un ymatebwr fod peryg i ffocws ar ganlyniadau cyflogadwyedd a sgiliau dynnu sylw oddi ar y budd cyffredinol a gaiff myfyrwyr o ddilyn astudiaethau addysg uwch.

**Ymatebwyr**

Prifysgol Aberystwyth

Prifysgol Bangor

Prifysgol Caerdydd

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Grŵp Llandrillo Menai

Grŵp NPTC

Y Brifysgol Agored

Prifysgol Abertawe

Undeb Prifysgol a Choleg Cymru

Prifysgol De Cymru

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

**Atodiad B**

**Crynodeb o ymatebion i ymgynghoriad Cam Un ar gyllid addysgu (blaenoriaethau ar gyfer ail gam yr adolygiad cyllido)**

Nifer yr ymatebwyr: 12 (un ymateb cyffredinol ac 11 ymateb manwl)

**Cyffredinol:**

- Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r cyfle i gynnig sylwadau ar y cynigion.
- Teimlai un ymatebwr fod diffyg capasiti wedi cyfyngu ar ei allu i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Pwyntiau allweddol:

- Pwysleisiai'r ymatebwyr pa mor bwysig oedd cyllido darpariaeth ar lefel a fyddai'n galluogi iddi fod yn gynaliadwy, gan roi ystyriaeth i incwm ffioedd a chyllid CCAUC.
- Dywedodd yr ymatebwyr y dylai CCAUC ystyried cynyddu'r gefnogaeth ar gyfer darpariaeth ran-amser. Yn aml, byddai angen teilwra darpariaeth ran-amser yn arbennig, felly roedd canfyddiad bod y ddarpariaeth honno'n costio mwy i'w chyflenwi na darpariaeth amser llawn.
- Dywedodd yr ymatebwyr fod cyllid addysgu CCAUC yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gynaliadwyedd y sector, ac yn ysgogi ymddygiad sefydliadau.

**Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion (fel y nodir ym mharagraff 40) yr ydym yn cynnig eu defnyddio i ddatblygu'r dull newydd? (12 o ymatebwyr)**

Ydw: 7
Ydw, gydag amodau: 3
Nac ydw: 1
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 1

Pwyntiau a godwyd:

- Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno â’r egwyddorion a nodwyd yn y cylchlythyr ymgynghori, gyda saith o ymatebwyr yn cytuno a thri ymatebwr yn cytuno gydag amodau.
- Holodd un ymatebwr a oedd yn briodol cyfeirio at 'CCAUC' a 'Strategaeth Gorfforaethol CCAUC' gan fod angen 'r egwyddorion barhau i fod yn berthnasol yn y tymor hir, yn enwedig wrth baratoi i sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.
- Awgrymodd un ymatebwr y dylai’r egwyddorion ganolbwyntio ar ddeilliannau llwyddiannus myfyrwyr, yn ogystal â mynediad at ddysgu a hygyrchedd dysgu, gan ystyried sut y dylid defnyddio enghreifftiau o gwblhau rhaglenni astudio'n llwyddiannus a symud i'r byd gwaith yn sail i ddeall cyfraniad addysg uwch i unigolion, yr economi a chymdeithas.
- Awgrymodd un ymatebwr y gallai’r egwyddorion gyfleu’n well sut roedd cenadaethau gwahanol sefydliadau yn amrywio mewn sector addysg uwch iach. Yn arbennig, gallai gynnwys cydnabyddiaeth fwy eglur o sefydliadau a

chanddynt genhadaeth a chyrhaeddiad oddi mewn i Gymru a thu hwnt. Gellid ymestyn uchelgais y sector i 'fodloni anghenion Cymru' i gynnwys gweledigaeth o 'Addysg uwch gynaliadwy a hygyrch sy'n rhagori yn fyd-eang yng Nghymru', fel y nodir yn strategaeth CCAUC. Mae sefydliadau â phroffil rhyngwladol yn denu'r bobl orau a mwyaf disglair o bob rhan o'r byd i Gymru, ac i chwarae eu rhan er mwyn datblygu economi lewyrchus a chymdeithas iach.

- Awgrymwyd ffactorau eraill y gellid eu cynnwys yn yr egwyddorion, fel:
  - cefnogi sectorau diwydiannol allweddol o bwysigrwydd rhanbarthol a chenedlaethol, a sectorau sy'n dod i'r amlwg fel sectorau twf posibl;
  - cefnogi uwchsgilio'r gweithlu rhanbarthol a chenedlaethol;
  - bodloni'r anghenion amrywiol o ran yr economi, sgiliau a dysgwyr ar sail ranbarthol;
  - cefnogi twf darpariaeth newydd
- Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod angen cyfaddawdu rhywfaint o ran darparu cyllid ar gyfer ystod eang o weithgareddau, oherwydd y lefel bresennol o adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r sector, ac er mwyn sicrhau cynaliadwyedd sefydliadau unigol, mewn cyd-destun lle'r oedd ffi sefydlog wedi'i phennu ar gyfer darpariaeth israddedig. Byddai felly angen ymdeimlad o flaenoriaethu o fewn yr egwyddorion cyllido. Fel prif ffactorau ysgogi, dylid canolbwyntio ar fodloni'r galw lle'r oedd y galw ar ei uchaf, er mwyn sicrhau deilliannau cadarnhaol.
- Dywedodd un ymatebwr y dylid ystyried argymhellion adolygiadau Diamond a Reid o fewn y fethodoleg newydd.

**Cwestiwn 12: Pa fathau, foddau neu lefelau darpariaeth y dylem roi'r flaenoriaeth iddynt yn ein methodoleg gyllido newydd a pham?**

Pwyntiau a godwyd:
Gwnaed amryw o awgrymiadau ynghylch yr hyn y dylid ei flaenoriaethu yn null cyllido newydd CCAUC. Mae'r rhain wedi'u grwpio yn themâu isod.

<u>Bodloni anghenion Cymru</u>

- Mae'n rhaid rhoi'r flaenoriaeth i feysydd lle ceir galw amlwg am addysg uwch, a lle sicrheir deilliannau llwyddiannus sydd o fudd amlwg i'r unigolyn ac i gymdeithas.
- Awgrymodd un ymatebwr y dylai'r dull gyllido darpariaeth o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion Cymru ac yn galluogi CCAUC i gyflawni ei weledigaeth, gan sicrhau cydraddoldeb rhwng darpariaeth ran-amser ac amser llawn.
- Dylid rhoi'r flaenoriaeth i ddarpariaeth sy'n helpu pobl i ddychwelyd i ddysgu, a pharhau i ddysgu, mewn cyfleoedd a drefnir ar lefel ranbarthol i hybu mynediad, lleihau ail-wneud gwaith a galluogi cynnig clir gyda chyfleoedd am ddilyniant i ddysgwyr rhan-amser.
- Oherwydd prinder adnoddau, awgrymodd un ymatebwr na fyddai'n ddoeth parhau i gefnogi darpariaeth lle bo'r galw yn isel ac/neu'r cyfraddau cwblhau yn wael.
- Yr holl foddau, ond lefel pedwar yn enwedig, oherwydd effaith bosibl astudio ar y lefel hon ar unigolion.

- Roedd un ymatebwr yn holi a fyddai'n bosibl sefydlu model cyllido sy'n cefnogi pynciau lle ceir galw mawr am raddedigion ond cyflenwad isel, a gwrthannog twf mewn meysydd pwnc lle ceir deilliannau llai cadarnhaol o ran cyflogaeth graddedigion.
- Byddai targedu cyllid yn unol â blaenoriaethau LlC o ran diwydiannau STEM, Amgylchedd Cynaliadwy, Iechyd a Chreadigol yn ychwanegu gwerth at y sector.
- Dylid rhoi'r flaenoriaeth i Brentisiaethau Gradd gan fod y rhain yn gweithredu ar fodel sy'n sicrhau bod angen cyflogwyr yn cael ei fodloni a bod blaenoriaethau LlC a datblygiadau AU yn gyson â'i gilydd.
- Ystyried sut y gellid cefnogi datblygiad meysydd pwnc newydd, o ran buddsoddi mewn adnoddau (nid buddsoddiad cyfalaf yn unig) i adeiladu meysydd rhagoriaeth yng Nghymru sy'n bodloni anghenion LlC yn nhermau gweithlu'r dyfodol.

<u>Bodloni costau cyflenwi</u>

- Dylai bodloni costau llawn darpariaeth israddedig amser llawn fod yn flaenoriaeth, ac ystyried faint o fyfyrwyr sy'n astudio yn y maes hwn (sy'n dystiolaeth glir a diamwys bod y sector yn ddeniadol i ddysgwyr), a hefyd gan fod disgwyl i nifer y bobl ifanc 18 oed sy'n hanu o Gymru gynyddu o'r naill flwyddyn i'r nesaf hyd 2030.
- Gallai tangyllido darpariaeth israddedig amser llawn, fel maes gweithgarwch craidd, achosi risg i ansawdd a chynaliadwyedd parhaus y ddarpariaeth yng Nghymru.
- Bydd angen bod yn ofalus wrth bennu ‘gwir gostau cyflenwi darpariaeth', yn enwedig mewn perthynas â'r Brifysgol Agored yng Nghymru - yr unig ddarparydd sy'n gwasanaethu Cymru gyfan y mae ei ddarpariaeth yn rhan o gyfundrefn fwy ar draws y DU. Byddai'n heriol gallu nodi 'gwir gostau' darpariaeth y Brifysgol ar gyfer pob modiwl unigol, er enghraifft, oherwydd ei fodel pedair gwlad. Yn ogystal â hyn, bydd angen gofalu i sicrhau bod dull cyllido o'r fath yn rhoi cyfrif am y ffaith nad oes rhyw lawer o wahaniaeth rhwng costau cefnogi myfyrwyr amser llawn ar y campws a myfyrwyr rhan-amser o bell.

<u>Cynaliadwyedd sefydliadol</u>

- Dylai'r dull hefyd hybu hyblygrwydd a bod yn ymatebol i amgylchiadau unigol pob sefydliad a'i gorff o fyfyrwyr.
- Dylai dull cyllido CCAUC fod yn hyblyg, ond dylai roi cymaint o sicrwydd ag sy'n bosibl i sefydliadau ynghylch y mathau o gyllid a lefelau'r cyllid y maent yn disgwyl ei dderbyn.
- Er bod cyllid byrdymor ac/neu fyr-rybudd weithiau o gymorth i ymateb i faterion brys neu baratoi am ymateb arbennig, nid yw'n helpu darparwyr i ddatblygu a thyfu mewn modd cynaliadwy a strategol yn y tymor hwy.

<u>Rhan-amser</u>

- Dylid parhau i flaenoriaethu cyllid ar gyfer darpariaeth ran-amser yn null cyllido CCAUC, a ddylai gynnwys dysgu o bell ac addysg uwch ar bob lefel.

- Dylai cyllid rhan-amser fod ar lefel sy'n caniatáu twf yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.
- Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod darpariaeth ran-amser wedi'i thangyllido o gymharu â darpariaeth amser llawn, a'r gwahaniaeth a oedd ar gael o ran incwm ffioedd.
- Dylai darpariaeth ran-amser fod ar gael ar bob lefel.
- Dylai cyllid gefnogi llwybr dilyniant clir o opsiynau blasu heb gredyd hyd at raglenni dychwelyd i ddysgu lefel 3, hyd at gyrsiau ôl-radd.
- Bydd darpariaeth ran-amser a datblygiad proffesiynol parhaus yn rhan annatod o gynllun adfer ar ôl COVID i Gymru.

<u>Dysgu hyblyg</u>

- Efallai y byddai'n well cyflenwi darpariaeth arbenigol sy'n targedu meysydd economaidd neu sgiliau swydd penodol yn rhan-amser ar lefel ôl-radd, neu ar ffurf unedau technegol fesul tamaid.
- Dywedodd un ymatebwr fod angen ystyried sut y gellid cyllido darpariaeth microgymwysterau/microgredydau a darpariaeth nad yw'n arwain at gymhwyster AU penodol (hy, microddarpariaeth).
- Mae unigolion hefyd yn chwilio am gyrsiau dysgu manylach a byrrach i'w helpu i uwchsgilio a bod yn hyblyg i fodloni anghenion sgiliau'r farchnad, ac mae'r duedd hon wedi'i chyflymu gan y pandemig. Nid yw'r model cyfredol yn caniatáu'r hyblygrwydd sydd ei angen ar y farchnad.
- Mae model dysgu hyblyg gyda chymorth yn creu costau ychwanegol lle bo gan gyfran mor fawr o fyfyrwyr anghenion cymorth mwy dwys, oherwydd eu lefel ddysgu flaenorol neu anabledd.
- Roedd un ymatebwr yn croesawu cynnwys yr egwyddor o geisio sicrhau bod y dull cyllido yn hwyluso dysgu gydol oes, gan gynnwys uwchsgilio a modelau darpariaeth hyblyg wedi'u cynllunio'n arbennig, ac yn cefnogi hynny'n fawr. Byddai angen gofalu i sicrhau bod unrhyw gyllid o'r fath yn cydnabod bod darpariaeth hyblyg yn esgor ar gostau ychwanegol - nid yw'n ddigonol tybio y byddai lefel gyllido pro rata yn ddigonol gan na fyddai'r arbedion maint yn gysylltiedig â datblygu darpariaeth o'r fath yn berthnasol o reidrwydd. Fel mater o bolisi cyhoeddus, credwn y dylai myfyrwyr allu cyrchu cymorth ariannol i fanteisio ar gyfleoedd dysgu byrrach.
- Teimlai un ymatebwr y dylid rhoi'r flaenoriaeth i elfennau dysgu fesul tamaid sy'n esgor ar gredydau, fel microgymwysterau, gan fod y rhain yn cynnig mynediad rhwydd ond hefyd yn galluogi rhywun i gasglu credydau i'w hannog i barhau. Gallai cymorth ariannol fod ar raddfa symudol i gyd-fynd â lefelau dilyniant.

<u>Pynciau cost uchel neu ddrud</u>

- Dylai'r model cyllido barhau i flaenoriaethu cyllid am ddarpariaeth sy'n fwy costus na'r incwm a godir amdani drwy ffioedd dysgu, fel y premiwm pynciau cost uwch cyfredol, waeth beth yw'r modd neu'r lefel astudio.
- Dylai CCAUC ystyried ehangu cwmpas y cyllid ar gyfer pynciau drud er mwyn cynnwys darpariaeth ôl-radd a addysgir mewn meysydd â blaenoriaeth.

Ôl-radd

- Awgrymodd un ymatebwr y dylai CCAUC ystyried darparu cymorth ychwanegol ar gyfer astudiaethau ôl-radd a addysgir, gan ystyried effaith pandemig Covid-19 a Brexit ar yr economi.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Cytunai un ymatebwr y ddylai'r dull cyllido fod yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac y dylai annog, cymell a chefnogi darparwyr i ddatblygu a chyflenwi eu darpariaeth mewn modd sy'n cynyddu eu cyfraniad at nodau a ffyrdd o weithio'r Ddeddf hyd yr eithaf o'r cychwyn cyntaf.

Cyfrwng Cymraeg

- Dylai mwy o gymorth fod ar gael i hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Edrych i'r dyfodol a'r CADY

- Cododd nifer o ymatebwyr faterion yn gysylltiedig â throsglwyddo i CADY, gan gynnwys heriau'n gysylltiedig ag eglurder ynghylch hyfywedd y model cyllido ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir.
- Er y byddai'r CADY yn gyfle am weledigaeth newydd a ffyrdd newydd o weithio, byddai ymatebwyr yn croesawu trosglwyddiad di-dor.
- Gallai rhai elfennau o fewn drafft y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) effeithio ar allu'r Brifysgol Agored i dynnu cyllid i lawr, ac ystyried ei sefyllfa fel sefydliad sy'n gweithredu ar draws y DU.

**Cwestiwn 13: A oes agweddau ar ein methodoleg gyllido y dylem eu cadw? Os felly, pa un/rai a pham? (12 o ymatebwyr)**

Oes: 7
Oes, gydag amodau:
Nac oes: 1
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 4

Pwyntiau a godwyd:

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cynnig awgrymiadau ar gyfer y cwestiwn hwn. Dewisodd eraill beidio ag ymateb yn fanwl, neu'n myfyrio ar gynigion yr ymgynghoriad heb wneud unrhyw awgrymiadau pellach.
- Roedd cefnogaeth ar gyfer dull rhan-amser seiliedig ar gredydau CCAUC, yn ogystal â'r premiymau presennol.
- Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys:
    - Dylai'r model cyllido barhau i flaenoriaethu cyllid am ddarpariaeth sy'n fwy costus na'r incwm a godir amdani drwy ffioedd dysgu, fel y premiwm pynciau cost uwch cyfredol, waeth beth yw'r modd neu'r lefel astudio.
    - Mae'r fethodoleg gyllido yn ceisio cydnabod cost cyflenwi, a dylai'r uchelgais hwn barhau i fod yn greiddiol iddi. Hoffem dynnu sylw, fodd bynnag, at y ffaith nad yw costau addysgu israddedig wedi'u cyllido'n

llawn, fel y dangosir yn TRAC T, y fethodoleg a ddefnyddir yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gellid defnyddio TRAC T i bennu'r 'cost cyflenwi' ar gyfer cyllido gwahanol bynciau.

- Mae'n hanfodol parhau i gydnabod y gost uwch o gyflenwi rhai pynciau, fel yr hyn a wneir ar hyn o bryd drwy'r premiymau pynciau israddedig drud a chost uwch. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod pobl â lefel uchel o gymwysterau'n llifo i'r farchnad lafur yng Nghymru, i gefnogi economi'r sector preifat, a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus fel gofal iechyd.
- Ceir cydnabyddiaeth o gyfraddau cadw o fewn y model cyllido cyfredol, ond dylid cryfhau hyn mewn unrhyw fodel cyllido yn y dyfodol, yn ogystal â monitro deilliannau, i gydnabod y budd gweladwy i gymdeithas.  Mae cydnabod pwysigrwydd deilliannau'n fodd i flaenoriaethu pwysigrwydd y cyfraniad i gymdeithas a'r economi ac o ran gwireddu dyheadau'r myfyriwr unigol.
- Mae'r cyllid credyd rhan-amser yn brif fecanwaith gyllido briodol ar sail gwerth safonol fesul dysgwr fesul math o gwrs.
- Mae cyllid premiwm CCAUC yn rhoi cymorth i ddarparwyr dalu costau cylchol eu gweithgareddau yn y maes rhan-amser, sydd yn aml yn uwch na'r cyffredin. Gall hyn gynnwys hyrwyddo mynediad a chymorth i gadw myfyrwyr o gefndiroedd cyfranogiad isel, yn ogystal â'r costau fesul pen a gwaith ychwanegol i gefnogi cyfraddau cadw a llwyddiant yr holl fyfyrwyr rhan-amser.
- Yn ogystal â chefnogi recriwtio a chyfraddau cadw, bydd y cyllid hwn hefyd yn galluogi darparwyr i gynnal safonau ansawdd uchel, yn ogystal â'r cymorth ychwanegol sydd ei angen ar fyfyrwyr rhan-amser sy'n aml yn rheoli bywydau cymhleth; a datblygu swyddogaethau llais myfyrwyr, sy'n aml yn fwy heriol i ddysgwyr rhan-amser.
- Roedd un ymatebwr yn cytuno y dylid cadw cyllid premiwm i gydnabod yr heriau wrth gefnogi grwpiau penodol o fyfyrwyr. Dylid cadw cyllid premiwm mynediad a chadw ond ystyried defnyddio model symlach sy'n cynnwys un band yn unig.
- Dylid cydgrynhoi ac ymestyn y cynlluniau hepgor ffioedd presennol er mwyn cynnig cymhelliant da i sefydliadau AU ddatblygu cyrsiau sy'n arwain at astudiaeth bellach.
- Unrhyw fethodolegau sy'n ystyriol o'r gwahaniaeth mewn costau cyflenwi.
- Unrhyw fethodolegau sy'n annog grwpiau wedi'u tangynrychioli i fynd i AU.

**Cwestiwn 14: A oes newidiadau penodol i'n dulliau cyllido a fyddai o gymorth i ysgogi twf a chyfranogiad mewn addysg uwch, gan gynnwys ffurfiau newydd ac arloesol ar ddarpariaeth? (12 o ymatebwyr)**

Oes: 8
Oes, gydag amodau:
Nac oes:
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 4

Pwyntiau a godwyd:

- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod newidiadau penodol i'r dulliau cyllido a allai fod o gymorth i ysgogi twf a chyfranogiad mewn addysg uwch, gan gynnwys ffurfiau newydd ac arloesol ar ddarpariaeth.
- Roedd un ymatebwr yn anghytuno, ac awgrymodd nad dyma oedd yr amser i wneud hyn, a ninnau yng nghanol pandemig.
- Dyma rai o'r awgrymiadau a gafwyd ynghylch sut i newid y dull i ysgogi twf a chyfranogiad:
    - Cymorth ychwanegol ar gyfer darpariaeth microgymwysterau. Roedd potensial i hyn ysgogi twf a chyfranogiad i raddau sylweddol.
    - Mwy o sefydlogrwydd yn y fethodoleg gyllido i gefnogi sicrwydd parhaus y ddarpariaeth ac annog datblygiad darpariaeth newydd.
    - Sicrhau bod cyllid penodol ar gael i ddatblygu darpariaeth newydd a fyddai o gymorth i dyfu darpariaeth ran-amser AU yn gyffredinol, a gallu sefydliadau i ddatblygu darpariaeth i fodloni anghenion cyflogwyr y rhanbarth.
    - Cyllid pellach i ddatblygu darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog
    - Cynnydd i'r Unedau Cyllido Categori Pwnc Academaidd, i adlewyrchu costau llawn astudio AU.
- Cwestiynodd un ymatebwr a oedd angen canfod ffyrdd newydd i ysgogi twf a chyfranogiad, gan fod y sector Cymreig eisoes yn cyflawni hyn. Gan fod gan llawer o sefydliadau eisoes wedi sefydlu rhaglenni allgymorth helaeth i wella cyfranogiad, byddai'n fwy effeithiol canolbwyntio ar sicrhau bod sefydliadau hefyd yn canolbwyntio ar greu deilliannau cadarnhaol o ran cwblhau rhaglenni astudio a symud ymlaen i gyflogaeth wedi hynny.
- Awgrymodd yr un ymatebwr hefyd fod risg o fabwysiadu atebion newydd i broblem nad oedd yn bodoli, yn dilyn y diffyg llwyddiant canfyddedig mewn perthynas ag ymdrechion eraill diweddar i arloesi yn rhannau eraill o’r DU, ee, graddau dwy flynedd a phrentisiaethau gradd yn Lloegr.
- Awgrymodd un ymatebwr nad oedd y lefelau cyllid ar gyfer sefydliadau yng Nghymru yn rhoi unrhyw gymhelliant i ddarparwyr fuddsoddi mewn darpariaeth ran-amser.
- Roedd y pwyntiau eraill a godwyd yn cynnwys:
    - Ystyried ffyrdd o gefnogi astudio ar ddwysedd is na 25%.
    - Cymorth ariannol ychwanegol i'r myfyrwyr sydd dan y mwyaf o anfantais, drwy ddarparu grantiau, yn hytrach na benthyciadau.
    - Ymchwil bellach yn edrych ar lefel y galw, a'r dwysedd, ar gyfer astudiaeth ran-amser, i adeiladu ar ddeilliannau adroddiad OB3.
    - Ni ddylai cyllid ar gyfer arloesi a darpariaeth arbrofol dynnu adnoddau o'r blaenoriaethau craidd a nodwyd yn rhannau eraill yr ymgynghoriad.
    - Roedd astudiaethau heb gredydau'n aml yn arwain at ddarpariaeth a oedd yn cynnwys credydau, a chan nad oedd hyn yn cael ei gyllido gan CCAUC, gallai hynny fod yn rhwystr i ddysgwyr gymryd rhan, ac nid oedd datblygu'r ddarpariaeth heb gredydau'n flaenoriaeth i sefydliadau.

**Cwestiwn 15: A oes agweddau y dylem eu hychwanegu, eu diwygio neu eu hepgor? Os felly, pa un/rai a pham? (12 o ymatebwyr)**

Oes: 6
Oes, gydag amodau:

Nac oes: 3
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 3

Pwyntiau a godwyd:

- Roedd rhaniad yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod agweddau y dylid eu newid, a'r hanner arall yn anghytuno neu heb ymateb yn fanwl.
- Cadarnhaodd un ymatebwr fod cyllid CCAUC yn bwysig i ddarparu'r cydbwysedd yr oedd ei angen o ran adnoddau er mwyn cyllido darpariaeth ran-amser yn llawn, ac ystyried y cap hirdymor ar fenthyciadau ffioedd dysgu rhan-amser. Gan hynny, roedd model seiliedig ar gredydau CCAUC yn werthfawr.
- Awgrymodd un ymatebwr y dylai'r fethodoleg gyllido newydd gydnabod effaith unrhyw ostyngiad mewn ffioedd dysgu yn Lloegr (fel y cynigiwyd yn adolygiad Augar) i sicrhau bod lefel gyffredinol y cyllid a oedd ar gael i sefydliadau wedi'i diogelu.
- Dyma rai o'r awgrymiadau a gafwyd ar gyfer agweddau y dylid eu hychwanegu:
    - Prentisiaethau rhan-amser dwysedd is.
    - Ailgyflwyno agwedd adennill y dull seiliedig ar gredydau. Byddai hyn yn caniatáu hyblygrwydd a gwell sefydlogrwydd i sefydliadau pan fydd problemau achlysurol yn amharu ar ymrestriadau myfyrwyr mewn blynyddoedd unigol (ee, yn achos y pandemig presennol). Dylid edrych ar dueddiadau dros gyfnod hwy i benderfynu ar unrhyw gyllid i'w adfachu (er enghraifft, tair blynedd).
    - Awgrymodd un ymatebwr y dylid diwygio'r fethodoleg gyllido i sicrhau hyfywedd ariannol y rhaglen TAR ran-amser, a elwir yn rhaglen israddedig i ddibenion trefniadau cyllido myfyrwyr, ond a gydnabuwyd fel cymhwyster ôl-radd yn null cyllido presennol CCAUC. Gan mai darpariaeth amser llawn yw'r holl ddarpariaeth TAR arall yng Nghymru, nid oedd y broblem hon ond yn effeithio ar un sefydliad.
- Dyma'r awgrymiadau a gafwyd ar gyfer agweddau y dylid eu diwygio:
    - Awgrymodd un ymatebwr y dylid adolygu'r dull cyllido fesul pen, gan ei bod hi'n anodd gweld sut roedd hyn yn cyd-fynd ag unrhyw flaenoriaeth neilltuol.
    - Roedd un ymatebwr yn annog symleiddio'r dull, a chael nifer cyfyngedig o 'gronfeydd' ar gyfer gwahanol weithgareddau. Gallwch fod yn llawn bwriadau da wrth rannu adnoddau a cheisio rhannu'r cyllid sydd ar gael ar draws ystod o wahanol gategorïau a gweithgareddau. Fodd bynnag, bydd hynny'n achosi tanddarpariaeth ar gyfer y galw craidd am ddarpariaeth israddedig amser llawn. Awgrymodd un ymatebwr y dylai cyllid yn y dyfodol ar gyfer mynediad a chadw roi ystyriaeth i gyfraddau cadw amrywiol gwahanol sefydliadau. Gallai cyfraddau uwch am lefelau cadw gwell fod o gymorth i ysgogi deilliannau gwell i fyfyrwyr, yn hytrach na gwobrwyo sefydliadau a ymrestrodd myfyrwyr ond iddynt beidio â chwblhau eu hastudiaethau.
    - Dylid adolygu'r cyfraddau cyllid credydau yn rheolaidd.
- Ni awgrymwyd unrhyw agweddau y dylid eu dileu.

**Cwestiwn 16: I'r sefydliadau a gyllidir, pa effaith y mae cyllid addysgu CCAUC yn ei chael ar allu eich sefydliad i gyflawni ei genhadaeth strategol?**

Pwyntiau a godwyd:

- Yn yr ymatebion, rhoddwyd amryw o enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol cyllid addysgu CCAUC. Mae'r rhain wedi'u cynnwys isod.
- Dyma rai o'r enghreifftiau a roddwyd:
  - Bod cyllid CCAUC yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at gynaliadwyedd ariannol y sefydliad, ac yn hyrwyddo'r cyfeiriad a flaenoriaethir gan CCAUC, a hefyd yn galluogi sefydliadau i gyflawni eu cenhadaeth a'u strategaeth.
  - Bod cyllid CCAUC yn tanategu darpariaeth addysgu ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd ariannol parhaus.
  - Bod cyllid CCAUC yn cefnogi darpariaeth cost uchel a darpariaeth ôl-radd a addysgir.
  - Bod cyllid CCAUC ar gyfer pynciau cost uwch yn galluogi rhai sefydliadau i ddarparu adnoddau digonol ar gyfer darpariaeth STEM, gan gadw cydbwysedd priodol rhwng addysgu a gweithgareddau ymchwil rhagorol a graddfa fawr.
- Awgrymodd un ymatebwr y byddai cymorth ychwanegol gan CCAUC yn ei gwneud hi'n bosibl datblygu microgymwysterau a chyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol parhaus, yn ogystal â darpariaeth sy'n canolbwyntio ar gyflogwyr.
- Awgrymodd un ymatebwr fod lefel yr adnoddau sydd ar gael fesul myfyriwr yng Nghymru'n is na'r hyn a dderbynnir gan sefydliadau tebyg yn Lloegr, gyda'r un farchnad lafur, pensiwn a fframwaith trethi. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid sicrhau traws-gymhorthdal o weithgareddau eraill.
- Roedd cyllid CCAUC yn cefnogi gweithgarwch y genhadaeth ddinesig a gwaith i recriwtio myfyrwyr aeddfed.
- Awgrymodd un ymatebwr y gallai'r fethodoleg gyfredol annog meddylfryd byrdymor. Gallai cyllid penodol ar gyfer datblygu a llai o newid mewn dyraniadau cyllid o'r naill flwyddyn i'r nesaf greu sefydlogrwydd i dyfu darpariaeth AU ran-amser.
- Awgrymodd ymatebwr arall y gellid cefnogi ei weledigaeth strategol yn well drwy greu ffocws o'r newydd i gyllid rhan-amser a oedd yn fwy hyblyg ar draws gwahanol lefelau a dwyseddau astudio, a fyddai'n cyfrannu at sicrhau deilliannau polisi a flaenoriaethir gan Lywodraeth Cymru.

**Cwestiwn 17: A yw balans cyfredol cyllid CCAUC ar gyfer darpariaeth israddedig ac ôl-radd a addysgir, yn rhan-amser ac yn llawnamser, yn briodol? (12 o ymatebwyr)**

Ydy: 2
Ydy, gydag amodau: 1
Nac ydy: 5
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 4

Pwyntiau a godwyd:

- Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gymysg, ond roedd barn glir nad oedd cydbwysedd y cyllid yn briodol.

- Cafwyd awgrymiadau gan yr ymatebwyr ynghylch sut i sicrhau cydbwysedd gwell o ran cyllid. Dyma nhw:
    - Cyllid ychwanegol ar gyfer astudiaethau rhan-amser, oherwydd y canfyddiad bod y ddarpariaeth hon yn costio mwy i'w chyflenwi na darpariaeth israddedig amser llawn, a'i bod felly'n fwyfwy ariannol annichonadwy i ddarparwyr ei chynnig.
    - Cyllid ychwanegol er mwyn cefnogi datblygiad cyrsiau rhan-amser newydd, er mwyn cyfrannu at gynnig mwy deniadol a hyblyg i ddarpar fyfyrwyr, gan gynnwys rhai sy'n astudio'n rhan-amser tra maent mewn swydd.
    - Cymorth ychwanegol ar gyfer mynediad, cadw a darpariaeth amser llawn cyfrwng Cymraeg.
    - Lle bo twf yn y galw am addysg uwch dylid darparu cyllid ychwanegol i gefnogi hynny.

- Awgrymodd un ymatebwr ei bod hi wedi bod yn anodd defnyddio cyllid bwrsariaeth ôl-radd CCAUC i'r diben a fwriadwyd oherwydd amseriad y cyhoeddiadau a diffyg ymwybyddiaeth ymhlith ymgeiswyr.
- Nid oedd un ymatebwr yn teimlo ein bod wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng cyllid amser llawn a rhan-amser, ond dywedodd nad oedd hyn yn golygu y dylid tangyllido un math o ddarpariaeth er mwyn cefnogi'r llall, gan ychwanegu fod ar Gymru angen ymagweddau lluosog mewn AU i fodloni anghenion amrywiol y dysgwyr, a bod angen i ddarparwyr gael cefnogaeth i fodloni'r anghenion hynny.
- Awgrymodd un ymatebwr ei bod yn debygol y byddai ymddygiad myfyrwyr ac anghenion cyflogwyr yn newid yn sgil pandemig Covid-19; gan hynny, efallai y byddai angen buddsoddi mwy mewn darpariaeth ran-amser ac ôl-radd er mwyn bodloni anghenion adfer Cymru.

**Cwestiwn 18: A ddylid cadw cyllid premiymau fel ffordd o ysgogi ymddygiad sefydliadau? Os felly, pam bod y dull hwn yn ffordd dda o wneud hynny? (12 o ymatebwyr)**

Dylid: 10
Dylid, gydag amodau:
Na ddylid: 1
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 1

Pwyntiau a godwyd:

- O'r rhai a roddodd ymateb manwl i'r cwestiwn hwn, roedd pawb ond un yn cytuno y dylem gadw cyllid premiwm fel ffordd o gymell ymddygiad sefydliadau.
- Cadarnhaodd yr ymatebwr olaf na ddylid defnyddio cyllid premiwm i wobrwyo ymddygiad sefydliadau, ond y dylid ei ddefnyddio yn lle hynny i gefnogi'r costau'n gysylltiedig â recriwtio, addysgu a chefnogi dysgwyr, ac i gael gwared â rhwystrau ariannol gwirioneddol i gyfranogiad o safbwynt y dysgwr, a darpariaeth o safbwynt darparydd AU, yn enwedig y rhai hynny sy'n gyson â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

- Cadarnhaodd yr ymatebwyr fod cyllid premiwm yn fecanwaith sefydledig er mwyn cymell ymddygiad sefydliadau a hybu uchelgais, a bod gan y sector ddealltwriaeth dda o hynny.
- Cadarnhaodd ymatebwyr bod cyllid premiwm yn cael ei ddefnyddio i gydnabod yr heriau a wynebir wrth gefnogi grwpiau penodol o fyfyrwyr.
- Teimlai un ymatebwr nad oedd y premiymau'n adlewyrchu'r gost economaidd lawn o gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ac y byddai angen mynd i'r afael â hynny er mwyn iddynt fod yn gymhelliant gwirioneddol.
- Nododd un ymatebwr fod cyllid premiwm CCAUC yn rhoi cymorth i ddarparwyr dalu costau cylchol eu gweithgareddau yn y maes rhan-amser, sydd yn aml yn uwch na'r cyffredin. Gall hyn gynnwys hyrwyddo mynediad a chymorth i gadw myfyrwyr o gefndiroedd cyfranogiad isel, yn ogystal â'r costau fesul pen a gwaith ychwanegol i gefnogi cyfraddau cadw a llwyddiant yr holl fyfyrwyr rhan-amser. Yn ogystal â chefnogi recriwtio a chyfraddau cadw, roedd y cyllid hwn hefyd yn galluogi darparwyr i gynnal safonau ansawdd uchel, yn ogystal â'r cymorth ychwanegol sydd ei angen ar fyfyrwyr rhan-amser sy'n aml yn rheoli bywydau cymhleth; a datblygu swyddogaethau llais myfyrwyr, sy'n aml yn fwy heriol i ddysgwyr rhan-amser.
- Anogodd un ymatebwr CCAUC i gadw'r premiwm ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**Cwestiwn 19: A oes unrhyw faterion neilltuol yn gysylltiedig â chost cyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg y dylem eu hystyried yn yr astudiaeth yr ydym yn ei chynnal ac yn ein cynigion ar gyfer cam dau? (12 o ymatebwyr)**

Oes: 9
Oes, gydag amodau:
Nac oes:
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 3

Pwyntiau a godwyd:

- Awgrymodd mwyafrif yr ymatebwyr faterion yn gysylltiedig â chost cyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys:
    - Dichonoldeb ariannol addysgu grwpiau bach o fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg
    - Llai o gyllid gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer rhai pynciau
    - Heriau wrth gyllido'r seilwaith cefnogol mewn sefydliadau, ac nid yn unig o ran y defnydd o staff academaidd i gyflenwi'r modiwlau.
    - Pwysau o ran costau yn gysylltiedig â chynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unig, o gymharu â darpariaeth ddwyieithog.
    - Nododd un ymatebwr mai'r adborth anffurfiol o weithgorau TRAC oedd bod y dyraniad cost ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn tueddu i fod yn fwy goddrychol nag yn hollol wrthrychol, ac roedd yn croesawu'r penderfyniad i beidio defnyddio'r data hyn ac i gynnal astudiaeth bellach.
- Dyma bwyntiau eraill a gafwyd yn gysylltiedig â chyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg:
    - Sut i gefnogi myfyrwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg neu gymunedau Cymraeg eu hiaith fel bod ganddynt yr hyder i barhau â'u hastudiaethau yn Gymraeg ar lefel AU.

  - Roedd un ymatebwr yn croesawu bwriad CCAUC i gomisiynu astudiaeth newydd o gost cyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ond nododd fod heriau'n gysylltiedig â phrinder arbenigwyr â chymwysterau priodol a oedd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
  - Argaeledd arholwyr allanol sy'n gallu cyflawni'r rôl drwy gyfrwng y Gymraeg.
  - Heriau wrth adrodd yn erbyn targedau blynyddol (o 40 credyd) ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio'n rhan-amser a all gronni credydau dros fwy nag un flwyddyn academaidd, ond heb i hynny gael ei adlewyrchu yn y ffigurau yn yr un modd.
  - Gallai mesurau ymarferol i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg gynnwys cymorth astudio ychwanegol, ee ysgrifennu traethodau (drwy gyfrwng y Gymraeg), rhaglenni datblygu sydd ar gael yn Gymraeg, a chyrsiau Cymraeg lefel uwch sy'n galluogi myfyrwyr i feistroli'r iaith yn eu dewis pwnc.
  - Nododd un ymatebwr na fyddai penodi darlithwyr dwyieithog a all wasanaethu siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn creu goblygiadau ychwanegol o ran costau i SAUau. Gan y byddai hyn yn golygu newid diwylliannol i bolisïau recriwtio SAUau, gallai fod yn heriol. Fodd bynnag gellid rhoi mesurau ar waith i gymell prifysgolion i ystyried addysgu dwyieithog ochr yn ochr ag addysgu cyfrwng Cymraeg a allai brif-ffrydio'r ddarpariaeth ymhen amser.

**Cwestiwn 20: Ar wahân i'r dull premiwm, pa ffyrdd y gallem eu defnyddio i ysgogi cynnydd yn narpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys ar gyfer moddau a lefelau eraill?**

Pwyntiau a godwyd:

- Awgrymodd yr ymatebwyr amryw o ffyrdd posibl i gymell cynnydd mewn darpariaeth AU cyfrwng Cymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys:
  - Hepgor cyfran o'r ffioedd ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg
  - Ymestyn y premiwm cyfrwng Cymraeg i gynnwys darpariaeth amser llawn a darpariaeth ôl-radd a addysgir
  - Cyllid ar gyfer darpariaeth microgymwysterau a microddarpariaeth (heb gredydau) cyfrwng Cymraeg nad oeddent yn arwain at gymhwyster AU penodol.
  - Cynnydd yn y cyllid fesul pen ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg, i gefnogi'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflenwi darpariaeth ddwyieithog.
  - Cymhelliant newydd yn seiliedig ar dwf a chynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg (mesuriad 40 credyd o bosib).
  - Cyllid CCAUC i gefnogi darpariaeth cyrsiau paratoadol dwys cyfrwng Cymraeg sy'n anelu i ddenu rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.
  - Cyllid strategol i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn pynciau nad ydynt yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd.

    - Ystyried sut y gellid cyflwyno rhaglenni Meistr cyfrwng Cymraeg drwy drefniadau cydweithredol ledled Cymru, gyda chefnogaeth ariannol gan CCAUC.
    - Gellid ystyried swyddi academaidd cyfrwng Cymraeg a gyllidir yn uniongyrchol i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg lle bo cyfraddau recriwtio myfyrwyr fel arfer yn is na'r nifer sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau hyfywedd.
    - Cyllid bwrsariaeth i fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
    - Cyllid i ddatblygu staff fel bo modd i staff ddarparu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.
    - Cymhellion ar gyfer darpariaeth ddwyieithog, i gydnabod nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyfran o'u hastudiaethau o leiaf drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Nododd un ymatebwr y gallai rhai meysydd pwnc arbenigol iawn ac iddynt werth uchel fodoli a oedd yn annhebygol o ddenu niferoedd uchel, ac felly y gellid bod angen mwy o gymhorthdal ar eu cyfer.
- Byddai un ymatebwr yn croesawu adolygiad o'r hyn yr oedd modd darparu yn ei olygu, o ran prosesau casglu data. Ni ellid cynnwys tiwtorialau, er enghraifft, gan nad oeddent yn gysylltiedig â modiwl neilltuol nac yn esgor ar unrhyw gredydau. Gallai hyn olygu bod mwy o weithgarwch yn cael ei gasglu ar lefel ôl-radd.

**Cwestiwn 21: A oes agweddau ar ganfyddiadau adolygiad OB3 o addysg ran-amser ac adroddiad dadansoddi addysg ran-amser CCAUC y dylem roi blaenoriaeth iddynt yn y dull cyllido newydd? (12 o ymatebwyr)**

Oes: 7
Oes, gydag amodau:
Nac oes: 2
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 3

Pwyntiau a godwyd:

- Awgrymodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr agweddau ar adolygiad OB3 o addysg ran-amser ac adroddiad dadansoddi addysg ran-amser CCAUC y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yn y dull cyllido newydd. Roedd y rhain yn cynnwys:
    - Tybiwyd ei bod hi'n ddrytach cyflenwi darpariaeth ran-amser na darpariaeth amser llawn, ac roedd y galw'n isel mewn rhai ardaloedd rhanbarthol a olygai ei bod hi'n anodd sicrhau twf y ddarpariaeth ran-amser.
    - Bod angen i ddarparwyr gael niferoedd digonol a'r gallu i adennill costau economaidd yn llawn er mwyn i weithgarwch rhan-amser fod yn gynaliadwy.
    - Y dylai CCAUC ymdrin â'r "diffyg mecanwaith cyllido a fyddai'n galluogi dysgu mwy hyblyg, lle gellir cronni credydau addysg uwch dros amser", ac archwilio "sut y gellir alinio cyllid yn well yn y dyfodol i gefnogi twf modelau darpariaeth ran-amser hyblyg wedi'u cynllunio'n arbennig, sy'n gweddu'n well i anghenion myfyrwyr rhan-amser".
    - Y dylai cyllid CCAUC gynnwys microddarpariaeth a bod wedi'i alinio'n glir â darpariaeth sy'n bodloni anghenion o ran sgiliau ac anghenion

economaidd rhanbarthol/cenedlaethol ehangach, yn gyson â chanfyddiadau adolygiad OB3: “cyllid datblygu, a fyddai’n cyd-fynd â meysydd blaenoriaeth rhanbarthol ac economaidd strategol, i gefnogi darparwyr i ddatblygu darpariaeth ran-amser newydd a phwrpasol” … ac … “archwilio a oes tegwch o ran y ddarpariaeth ran-amser sydd ar gael ledled Cymru, a chanfod unrhyw 'fannau oer' yn y ddarpariaeth, mewn cydweithrediad â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol".
  - Yr argymhelliad y dylai CCAUC barhau i gyllido darpariaeth ran-amser drwy ymagwedd seiliedig ar gredydau, gan mai dyna'r model priodol er mwyn helpu i leihau'r costau a ysgwyddir gan sefydliadau wrth gynnig y ddarpariaeth honno; a bod CCAUC yn ystyried darparu cyllid ychwanegol i gefnogi ymdrechion i ehangu darpariaeth ran-amser gan na thybir bod y model presennol yn ddigonol i dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chyflenwi darpariaeth ran-amser.
  - Yr argymhelliad y dylai "CCAUC ystyried sut y gellir alinio cyllid yn well yn y dyfodol i gefnogi twf modelau darpariaeth ran-amser hyblyg a phwrpasol sy'n bodloni anghenion myfyrwyr rhan-amser yn well.
  - Yr argymhelliad y dylai "CCACU gyhoeddi dyraniadau cyllid i ddarparwyr ar gyfer dwy neu fwy o flynyddoedd ar y tro, yn hytrach na'r cyfnod cyllido presennol o flwyddyn".
  - Yr argymhelliad bod “CCAUC, mewn cydweithrediad â’r sector, yn rhoi strategaeth hirdymor ar waith a fyddai'n nodi sut y byddai'n disgwyl i'w gyllid ysgogi twf mewn darpariaeth ran-amser".
  - Yr argymhelliad y dylid "ystyried sut i roi cefnogaeth ariannol i rai sy'n astudio addysg uwch ar ddwysedd is (llai na 25 y cant) ac nad ydynt wedi ymrwymo i gymhwyster addysg uwch o'r cychwyn cyntaf, er mwyn bodloni anghenion penodol y dysgwyr rhan-amser hynny sy'n dymuno astudio modiwlau unigol".
- Awgrymodd un ymatebwr y byddai trosglwyddo credydau ar draws darparwyr neu'r gallu i ddarpariaeth gan amryw o ddarparwyr gyfrannu at gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol hefyd yn codi proffil ac yn cynyddu apêl astudio rhan-amser i fyfyrwyr mewn swydd/sy'n chwilio am swydd.
- Awgrymodd un ymatebwr y dylid bod yn ofalus wrth ddarparu cyllid buddsoddi i gefnogi ehangu darpariaeth ran amser, herwydd mae'n bosibl na fydd y buddsoddiad hwnnw'n talu, gan nad oes tystiolaeth glir o alw heb ei fodloni.
- Nododd un ymatebwr, er bod nifer y myfyrwyr addysg uwch rhan-amser wedi gostwng dros y degawd diwethaf, nad oedd y gostyngiad hwn wedi digwydd yr un mor sydyn yng Nghymru ag yn Lloegr, sy'n awgrymu bod polisïau yng Nghymru wedi bod yn gymharol effeithiol o ran cefnogi cyfraddau recriwtio a chadw ar gyrsiau rhan-amser.
- Nododd un ymatebwr fod y gallu i dderbyn addysg uwch ran-amser a hyblyg yn hanfodol er mwyn sicrhau adferiad economaidd Cymru yn y tymor byr a'r tymor hwy, gan gyfeirio at y blaenoriaethau yng Nghenhadaeth Llywodraeth Cymru i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi.

**Cwestiwn 22: A oes unrhyw ffactorau neilltuol yn ein dadansoddiad o grwpiau pwnc a pherthynoleddau y dylem roi ystyriaeth iddynt yn eich tyb chi? Beth yw'r ffactorau hyn? (12 o ymatebwyr)**

Oes: 5
Oes, gydag amodau:
Nac oes: 4
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 3

Pwyntiau a godwyd:

- Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, awgrymodd pum ymatebwr ffactorau y dylem eu hystyried yn gysylltiedig â'n gwaith ar gyfuniadau pwnc a pherthynoleddau pwnc. Dyma nhw:
    - Ceir amheuon ynghylch defnyddio canolfannau cost HESA yn sail ar gyfer hyn, onid yw'r canllawiau, adolygiad cyflawn gan bob sefydliad, ac archwiliad o ddyraniad canolfan gostau yn rhan o'r broses.
    - Mae'n rhesymol defnyddio TRAC (T) fel darpariaeth llinell sylfaen, ond nid yw'n rhoi cyfrif am wahaniaethau cost sy'n deillio o faterion eraill, ee, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, moddau neu fodelau cyflenwi, neu fodloni anghenion penodol o ran sgiliau a'r anghenion economaidd rhanbarthol/cenedlaethol ehangach.
    - Mae'r fethodoleg gyllido yn ceisio cydnabod y gost darparu, a dylid cynnal a chefnogi'r berthynas hon drwy ymchwil o ansawdd da i gostau cyflenwi, ee gwaith costio TRAC(T) yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
    - Mae optometreg yn achos penodol lle mae'r grwpiau pris cyfredol yn anghywir - dylid ei gynnwys yn yr un categori â Fferylliaeth (fel y gwneir yn Lloegr) Mae'n ddrud i'w gyflenwi ac mae angen newid y fformiwla gyllido i gefnogi hyn.
    - Nid yw cost cyflenwi pynciau fel Pensaernïaeth wedi'i adlewyrchu'n llawn yn y fformiwla gyllido.
    - Gellid ystyried cymhwyso lwfansau cyllido ychwanegol ar gyfer yr holl grwpiau pwnc ar lefelau astudio uwch. Gallai hyn wella cynaliadwyedd AU Ran-amser yn enwedig.
    - Roedd ymateb y Brifysgol Agored yn codi materion neilltuol yn gysylltiedig â defnyddio data TRAC(T) a'i berthnasedd i ddarpariaeth dysgu o bell y Brifysgol ledled y DU.

**Cwestiwn 23: A fydd ein cynigion yn cael unrhyw effaith (boed gadarnhaol neu niweidiol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac/neu o ran peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg? Os felly, sut y gellid diwygio'r cynigion er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol (neu fwy o effeithiau cadarnhaol) ar yr agweddau hynny? (12 o ymatebwyr)**

Byddant: 5
Byddant, gydag amodau: 1
Na fyddant: 4
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 2

Pwyntiau a godwyd:

- Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r cynigion i ystyried sut y gellid defnyddio'r dull newydd i roi'r gefnogaeth orau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

- Nododd un ymatebwr y gallai'r cynigion i adolygu'r gost a'r heriau sy'n gysylltiedig â darpariaeth cyfrwng Cymraeg effeithio'n gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol.
- Nododd un ymatebwr fod CCAUC yn ymwybodol iawn o strategaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, a dylai ein cynigion alluogi'r sector addysg uwch yng Nghymru i gyfrannu'n adeiladol at hynny.

**Cwestiwn 24: A yw'r cynigion yn cael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol, neu'n creu canlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth a saith nod llesiant, Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)? (12 o ymatebwyr)**

Ydynt: 3
Ydynt, gydag amodau: 1
Nac ydynt: 5
Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol: 3

Pwyntiau a godwyd:

- Rhoddodd traean o'r ymatebwyr wybodaeth am effeithiau posibl neu'r canlyniadau a fwriedir yn nhermau cydraddoldeb ac amrywiaeth, a'r saith nod llesiant, yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
- Nododd un ymatebwr mai cymharol fach oedd y newidiadau a gynigir ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 a'u bod yn annhebygol o gael unrhyw effeithiau andwyol o bwys.
- Nododd un ymatebwr y dylai annog cyfranogiad rhan-amser mewn AU, yn enwedig ymhlith grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, fod o gymorth i greu effaith gadarnhaol yn nhermau amrywiaeth gyffredinol y cohort AU.
- Nododd un ymatebwr nad oedd y cynigion yn cynnwys cyllid penodol ar gyfer cyrsiau heb eu hachredu a arweiniai at ddarpariaeth yn seiliedig ar gredydau. Gallai hyn achosi i'r union grwpiau o bobl sy'n cael eu targedu i astudio ar lefel uwch gael eu heithrio, gan gael effaith negyddol drwy hynny ar ansawdd ac amrywiaeth a'r nodau
    - Cymru sy'n fwy cyfartal
    - Cymru lewyrchus
    - Cymru gydnerth
- Nododd un ymatebwr fod cyflwyno newidiadau mynych i ddulliau cyllido yn cael effaith negyddol ar yr ymagwedd strategol 'hirdymor' a amlinellir yn y pum ffordd o weithio.

**Ymatebwyr**

Prifysgol Aberystwyth

Prifysgol Bangor

Prifysgol Caerdydd

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Grŵp Llandrillo Menai

Grŵp NPTC

Y Brifysgol Agored

Prifysgol Abertawe

Undeb Prifysgol a Choleg Cymru

Prifysgol De Cymru

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant